PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR GWASANAETHAU OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU

DYDD GWENER, 15 IONAWR 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Elsmore, Jones-Pritchard, Mackie a/ac Lynda Thorne |

9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod hwn

10 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

11 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".

12 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2021 fel gwir gofnod.

13 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

14 : PENODI CYFARWYDDWR GWASANAETHAU OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU

Cafodd y Pwyllgor Penodiadau ei ailgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu. Roedd gan y Pwyllgor 4 Adroddiad Asesu i'w hadolygu.

Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor gais gwreiddiol pob ymgeisydd, sut sgoriodd pob ymgeisydd yn erbyn cymwyseddau gofynnol y swydd a'r asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn trafod cryfderau a sgiliau'r ymgeisydd. Ystyriodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno dau ymgeisydd am gyfweliad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau pwnc cyflwyno gan osod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD:

1. I wahodd ymgeiswyr 15090 ac 15097 am gyfweliad;
2. rhoi gwybod i'r ymgeiswyr beth fydd testun y cyflwyniad ac y caiff uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw; a
3. llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Gwener 22 Ionawr 2021 am 09.30 am

Daeth y cyfarfod i ben am 10.19 am